DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Cardiff Smile Centre

Dyddiad Arolygu: 15 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8423-8


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Canfyddiadau .......... 5

    Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

    Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 7

    Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

5. Y Camau Nesaf .......... 15
6. Methodoleg .......... 16

    Atodiad A .......... 18

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o ddeintyddfa Cardiff Smile Centre, 113 Clare Road, Grangetown, Caerdydd, CF11 6QR, ar 15 Tachwedd 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd deintyddfa Cardiff Smile Centre yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae deintyddfa Cardiff Smile Centre yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Grangetown, Caerdydd. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae deintyddfa Cardiff Smile Centre yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, tair nyrs ddeintyddol (ac un ohonynt yw rheolwr y practis), a hylenydd.

Mae Cardiff Smile Centre yn gwmni cyfyngedig preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod deintyddfa Cardiff Smile Centre yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd systemau ar waith i gasglu adborth, sylwadau a chŵynion y cleifion.
- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw’n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

- Gwella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.
- Mae angen i drefniadau cadw cofnodion gael eu gwella gan sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys cyngor am roi'r gorau i ysmygu, cydsyniad gwybodus, sgrinio am ganser, ac yn cofnodi'r cyfiawnhad dros archwiliadau pelydr-X.
- Mae angen diweddaru polisïau a gweithdrefnau i adlewyrchu'r sefydliadau cywir a/neu ganllawiau priodol.
- Mae angen cynnal adolygiad o hyfforddiant y staff i sicrhau bod pawb yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth briodol a'u bod yn gymwys i ymgymryd â'u swyddi a'u cyfrifoldebau.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd gan y practis systemau ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion ac roedd y rhain yn cael eu defnyddio i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 17 o holiaduron. Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Mae'r staff yma i gyd yn gyfeillgar iawn ac yn barod eu cymwynas"*
>
> *"Mae'r practis yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus iawn ac yn ymlaciedig"*
>
> *"Gwasanaeth ardderchog, effeithlon iawn. Rwy'n hapus iawn gyda'r driniaeth a'r gwasanaeth"*

Gofal gydag urddas

Roeddem o'r farn bod y staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar, ac fe'u clywsom yn bod yn gwrtais ac yn foesgar tuag at gleifion. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth ynghylch eu triniaeth ddeintyddol.

Gofal amserol

Canfuwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedwyd wrth y cleifion am unrhyw oediadau ar lafar.

Roedd rhif ffôn cyswllt brys at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos wrth fynedfa'r practis deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y rhif cyswllt i'w ffonio mewn argyfwng yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis hefyd, fel bod cleifion yn gallu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y man aros, gan gynnwys gwybodaeth yn Gymraeg. Roedd ystod y taflenni gwybodaeth i gleifion ynghylch gwahanol fathau o driniaethau a gofal ataliol yn enghraifft o arfer da.

Roedd arwydd 'dim ysmygu' wedi'i arddangos yn y dderbynfa, a wnaeth gadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth adeiladau di-fwg.

Roedd gan y practis ddull o geisio adborth cleifion trwy holiaduron i gleifion a chasglwyd a chofnodwyd sylwadau anffurfiol yng nghofnodion electronig y cleifion. Canfuom hefyd fod y staff yn monitro ymatebion y cleifion i nodi themâu sy'n dod i'r amlwg y byddai angen mynd i'r afael â nhw. Un gwelliant a wnaethpwyd o ganlyniad i sylwadau'r cleifion oedd recordiad newydd o neges peiriant ateb y practis.

Gofal unigol

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat. Roedd angen diweddaru'r polisi cwynion ar gyfer triniaethau preifat i gynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd gwybodaeth am wneud cwynion wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac roedd system ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gŵynion a dderbyniwyd gan y practis.

Cynhaliwyd cyfarfodydd staff rheolaidd a gwnaethom edrych ar y ffolder cyfarfodydd tîm, a oedd yn cynnwys cofnodion o'r cyfarfodydd. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod trafodaethau anffurfiol yn digwydd yn ddyddiol rhwng aelodau o'r tîm deintyddol ac, o ganlyniad i'r rhain, roedd newidiadau, argymhellion a gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu gwneud, cyhyd â phosibl. Gan fod tîm y practis yn fach, roedd y math hwn o gyfathrebu'n gweithio'n dda a chadarnhawyd hyn gan y staff y gwnaethom siarad â nhw.

Roedd y dderbynfa/man aros â chynllun agored. Dywedodd y staff wrthym fod sgyrsiau preifat yn cael eu cynnal mewn ystafell ar wahân i sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd y cleifion yn cael eu cynnal. Yn ogystal, dywedodd staff y dderbynfa wrthym eu bod yn gofyn am wybodaeth gan gleifion bob amser yn hytrach na datgan gwybodaeth bersonol yn ystod sgyrsiau dros y ffôn er mwyn sicrhau bod preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.**

**Gwnaethom nodi rhai gwelliannau mewn perthynas â'r broses ddadheintio/rheoli heintiau a fydd yn sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.**

**Gwnaethom argymell bod angen i hyfforddiant y staff gael ei drefnu a'i ddarparu yn y pynciau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal, canfuom fod angen gwneud gwelliannau o ran rhywfaint o gynnwys cofnodion y cleifion.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom wastraff peryglus yn cael ei storio tu ôl i ddrws blaen na ddefnyddir ac a oedd dan glo; fodd bynnag, roedd y coridor yn llwybr i'r staff gael mynediad at ardal i fyny grisiau'r adeilad, a oedd yn golygu nad oedd yr ardal yn hollol ddiogel. Dylid ystyried, felly, naill ai codi pared yn y lleoliad presennol i sicrhau bod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel, neu gloi gwastraff clinigol yn ddiogel yng nghefn yr adeilad.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r practis adolygu lleoliad y gwastraff clinigol i sicrhau ei fod yn cael ei storio'n ddiogel.***

Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Disgrifiwyd y trefniadau a oedd ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (domestig).

Roedd adeilad y practis yn amlwg wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus. Roedd offer diogelwch tân ar

gael mewn gwahanol fannau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

*Rheoli heintiau*

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Roedd y broses hon yn ymddangos yn foddhaol ar sail ein harsylwadau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol – megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid – ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc benodol i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau; fodd bynnag, nid oedd dyddiad ar y ddogfen i gadarnhau pryd y cafodd yr archwiliad ei gynnal. Yn ogystal, roedd gan y dull archwilio golofn yn cyfeirio at ganllawiau o HTM 01-05 (fersiwn Lloegr). Argymhellwn fod y practis yn defnyddio ac yn cyfeirio at WHTM 01-05 (sef Memorandwm Technegol Iechyd Cymru) a dylai'r practis ystyried defnyddio dull archwilio sy'n cyd-fynd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae gan Ddeoniaeth Cymru enghraifft o ddull archwilio o'r fath.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

Mae angen i archwiliadau rheoli heintiau gael eu dyddio a chyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw'n gyfredol, gan gynnwys profi dyddiol. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod profion protein[1] wythnosol yn cael eu cynnal, ond roedd yr holl brofion angenrheidiol eraill yn cael eu cynnal. Gwnaethom argymell bod y prawf

---

[1] Prawf cemegol yw hwn i ddatgelu protein gweddilliol ar lwyth prosesedig na ellir ei weld trwy arolygiad gweledol. Mae'r prawf yn cadarnhau bod y broses lanhau'n dal i fedru cael gwared ar brotein.

hwn yn cael ei gynnal a'i gofnodi, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis wella'r trefniadau dadheintio a rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, gan sicrhau bod profion protein wythnosol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.***

Dylid ystyried llif yr aer yn yr ystafell ddadheintio. Yr arfer gorau fyddai i'r ystafell gael system awyru bwrpasol i gynorthwyo'r aer i lifo o ochr 'fudr' yr ystafell i'r ochr 'lân' ddynodedig. Mae hyn i leihau'r risg o offer glân, wedi'u sterileiddio yn cael eu hailheintio. Cynghorwyd y practis i fynd i'r afael â hyn yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Amodau amgylcheddol, Pennod 6).

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion), ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Ar adeg ein hymweliad, gwnaethom sylwi ar lwybrau anadlu artiffisial a phadiau diffibrilwyr a'u dyddiadau wedi dod i ben. Archebwyd yr eitemau hyn ar unwaith gan dîm y practis a gwelsom dystiolaeth e-bost i gadarnhau y byddai'r eitemau'n cael eu dosbarthu drannoeth.

Gwelwyd bod y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu cadw'n briodol yn y practis er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Roedd gan y practis system er mwyn tystio bod gwiriadau rheolaidd (yn ddelfrydol gwiriadau wythnosol byddai'r rhain, yn unol â chanllawiau dadebru'r Deyrnas Unedig) yn cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrelli â'u dyddiadau wedi dod i ben. Argymhellwyd y dylid cynnal a chofnodi gwiriadau rheolaidd ar gyfer y diffibriliwr ac y dylid ystyried cadw rhestr o'r cyffuriau a'u dyddiadau dod i ben i helpu i nodi pryd mae angen i gyffuriau gael eu newid.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod person enwebedig yn gyfrifol am wirio'r cyffuriau a chyfarpar brys yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu dyddiadau'n gyfredol.***

Er bod y staff yn gwybod pwy oedd y swyddog cymorth cyntaf dynodedig, nid oedd arwydd gweledol i gadarnhau i'r cyhoedd pwy oedd yr unigolyn hwnnw.

Hefyd, mae angen cael gafael ar y dystysgrif cymorth cyntaf a chadw'r dyddiad arni'n gyfredol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod manylion y swyddog cymorth cyntaf dynodedig i'w gweld yn glir a bod tystysgrifau'n cael eu derbyn a'u cadw.***

*Diogelu*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd angen i'r holl staff gael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff fynegi unrhyw bryderon ynghylch darpariaeth y gwasanaethau i gleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

*Offer radiograffeg*

Roedd gan y practis gyfarpar pelydr-X digidol, ac roedd y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn unol â safonau a rheoliadau presennol. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod y deintydd sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[2] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Fodd bynnag, nid oedd y nyrsys deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn llawn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r nyrsys deintyddol ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ynghylch defnyddio ymbelydredd ïoneiddio.***

---

[2] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Gwnaethom nodi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyflawn, yn unol â'r gofyn. Wrth archwilio cofnodion y cleifion, fodd bynnag, canfuom fod angen gwybodaeth bellach i gyfiawnhau pam y tynnwyd rhai lluniau pelydr-X deintyddol. Roedd diffyg tystiolaeth o gofnodi adroddiadau am y radiograffau.

Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion yn cael ei raddio a'i gofnodi. Roedd hyn yn golygu bod y deintydd yn gallu sicrhau bod sganiau pelydr-X da a chlir yn cefnogi penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth cleifion.

<u>Gofal effeithiol</u>

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bump o gofnodion cleifion y practis. Ar y cyfan, gwelsom fod angen gwella'r cofnodion, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- Roedd angen i gyfeiriadau cleifion gael eu rhestru ar bob cofnod papur.
- Roedd angen cofnodi tystiolaeth o gyngor am roi'r gorau i ysmygu ac yfed alcohol.
- Roedd angen cofnodi tystiolaeth o egluro sgrinio ar gyfer canser.
- Roedd angen cofnodi cydsyniad gwybodus.
- Roedd angen cofnodi cyfiawnhad dros archwiliadau pelydr-X ac adrodd am radiograffau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen gwella cofnodion cleifion drwy sicrhau:***

- ***Bod gwybodaeth gynhwysfawr am gleifion yn cael ei chofnodi ar bob cofnod papur, yn benodol cyfeiriadau***
- ***Bod cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu, cydsyniad gwybodus, a sgrinio ar gyfer canser yn cael ei gofnodi***
- ***Bod cyfiawnhad dros gynnal sganiau radiograffig ac adroddiadau yn eu cylch yn cael eu cofnodi***

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.  Gwelsom fod y practis yn cwblhau archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau.

Roedd y deintydd wedi cael ei gynnwys mewn adolygiadau gan gymheiriaid allanol. Mae hyn yn arfer da sy'n cyfrannu at ansawdd y gofal a ddarperir gan

fod trefniadau o'r fath yn annog practisau i rannu gwybodaeth rhyngddynt er lles y cleifion.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Mae'r practis wedi bod dan arweiniad y deintydd presennol ers 1997.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i gefnogi gan ystod o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn amserol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy ystyried amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol.

Gwnaethom nodi bod angen diweddaru rhai polisïau a gweithdrefnau i adlewyrchu'r sefydliadau cywir a/neu ganllawiau priodol. Roedd hysbysiadau a oedd yn dangos gwybodaeth am ddadheintio yn cyfeirio at fersiwn Lloegr o'r canllawiau yn hytrach na'r fersiwn sy'n berthnasol i Gymru.

Roedd angen i'r ffolder damweiniau gynnwys y manylion cywir ar gyfer yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch lleol i helpu'r staff wrth iddynt adrodd am unrhyw ddigwyddiadau perthnasol.

Gwelsom hefyd fod angen i'r polisi diogelu rhag ymbelydredd gynnwys AGIC fel y corff i gysylltu ag ef ar gyfer gwallau gweithredol RhYÏ(DM). Yn ogystal, roedd angen i'r polisi cwynion preifat gynnwys manylion cyswllt AGIC.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen ymgymryd ag adolygiad o'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y sefydliadau cywir a/neu ganllawiau priodol yn cael eu rhestru. Mae'n rhaid rhoi sylw penodol i'r polisi cwynion preifat, y polisi diogelu rhag ymbelydredd, a'r ffolder damweiniau.***

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd rhai o'r polisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu. I fod yn gyson â'r polisïau a gweithdrefnau eraill oedd yn cynnwys y dyddiadau hyn, gwnaethom argymell y dylid ychwanegu dyddiadau cyhoeddi ac adolygu at yr holl ddogfennau, fel bod y staff yn eglur o ran p'un a oeddent yn edrych ar y fersiwn ddiweddaraf. Gwnaethom arsylwi ar a nodi'r arfer da ar waith, sef bod yn rhaid i'r staff i gyd lofnodi a dyddio'r polisïau a gweithdrefnau i dystio eu bod wedi darllen a deall eu cyfrifoldebau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn gyson â'i gilydd, gyda dyddiad y fersiwn a'r dyddiad adolygu wedi eu hychwanegu at yr holl ddogfennau polisïau a gweithdrefnau.***

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd yn ymddangos yn fodlon wrth gyflawni eu swyddogaethau. Gwelsom fod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn cwrs sefydlu, a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau.

Roedd staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i'w gwaith a'u datblygiad proffesiynol parhaus, ond gwelsom rai bylchau y mae angen eu llenwi ar unwaith. Roedd angen i'r deintydd ddiweddaru ei hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac mae angen hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ac amddiffyn oedolion ar y nyrsys deintyddol i gyd. Gwnaethom argymell hefyd bod y staff yn cwblhau hyfforddiant adolygu mewnol rheolaidd mewn perthynas â gweithdrefnau dadheintio a sterileiddio, a ddylai gael ei gofnodi yn eu ffeiliau hyfforddiant. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystysgrif gyfredol y swyddog cymorth cyntaf a gwnaethom argymell y dylid ei chael cyn gynted â phosibl.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen adolygiad o anghenion hyfforddi'r staff i gyd ac mae'n rhaid mynychu cyrsiau hyfforddi. Mae hyn er mwyn sicrhau bod staff yn gymwys i roi gofal a thriniaeth ddiogel ac effeithiol i gleifion a'u bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i wneud hynny.***

Roedd system ar waith i staff gael arfarniad blynyddol. Roedd hyn yn sicrhau bod cyfleoedd i'r staff fyfyrio ar eu gwaith a nodi unrhyw hyfforddiant perthnasol y gallent fod ei angen. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd a chedwir cofnodion ohonynt.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y deintydd sy'n darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru ag AGIC yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat ac roedd ei dystysgrif gofrestru ar gael yn y practis.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system ar waith i amddiffyn cleifion a'r staff rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn neintyddfa Cardiff Smile Centre yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[3] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[4] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r adeilad
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Canolfan Ddeintyddol Smile Ltd

## Dyddiad yr Arolygiad: 15 Tachwedd 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 7 | ***Rhaid i'r practis adolygu lleoliad y gwastraff clinigol i sicrhau ei fod yn cael ei storio'n ddiogel.*** | Safon 2.1 a 2.4 | Bydd bin cloadwy'n cael ei osod yn lleoliad cyfredol y gwastraff – rydym wedi anfon archeb at Cannon Hygiene. | Ben Omovie | 01/04/2017 |
| 9 | ***Rhaid i'r practis wella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, gan sicrhau bod profion protein yn cael eu cynnal a'u cofnodi bob wythnos.*** | Safon 2.4 | Rydym wedi prynu pecyn profi protein ac wedi'i roi ar waith eisoes. | Danielle Webber | 01/12/2016 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | ***Rhaid i'r practis sicrhau bod manylion y swyddog cyntaf dynodedig yn cael eu harddangos a bod tystysgrifau'n cael eu derbyn a'u cadw.***<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.6* | Safon 2.1 | Byddwn yn dod o hyd i gwrs priodol i bob aelod o staff ei fynychu. | Siân Beazer | 01/05/2017 |
| 10 | ***Rhaid i'r nyrsys deintyddol gwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar y defnydd o ymbelydredd ïoneiddio.***<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.6* | Safon 7.1 | Byddwn yn dod o hyd i gwrs priodol gan wasanaeth Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru. | Ben Omovie | 01/07/2017 |
| 11 | ***Mae angen gwella cofnodion cleifion trwy sicrhau:***<br><br>• ***Bod gwybodaeth cleifion gynhwysfawr yn cael ei*** | Safon 3.5 | Cwblhawyd eisoes | Ben Omovie | 21/11/2016 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***chofnodi ar bob cofnod papur, yn benodol cyfeiriadau***<br>• ***Bod cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu, cydsyniad gwybodus a sgrinio am ganser yn cael ei gofnodi***<br>• ***Bod cyfiawnhad dros gynnal sganiau radiograffig ac adroddiadau amdanynt yn cael eu cofnodi***<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1* | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 12 | Mae angen cynnal adolygiad o'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y sefydliadau a/neu'r canllawiau priodol yn cael eu rhestru. Rhaid rhoi | Safon 3.4 | Cwblhawyd eisoes | Siân Beazer | 21/11/2016 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | sylw penodol i'r polisi cwynion preifat, y polisi amddiffyn rhag ymbelydredd a'r ffolder damweiniau. | | | | |
| 13 | ***Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn gyson â'i gilydd, gan ychwanegu dyddiad y fersiwn a'r dyddiad adolygu at yr holl ddogfennau polisïau a gweithdrefnau.*** | Safon 3.4 | Cwblhawyd | Siân Beazer | 21/11/2016 |
| 13 | ***Mae angen adolygu anghenion hyfforddi pob aelod o staff a'r cyrsiau i'w mynychu. Mae hyn i sicrhau bod gan staff y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd i ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.*** | Safon 7.1 | Cwblhawyd. Bellach mae gan bob aelod o staff ffolder datblygiad proffesiynol parhaus gyda'r cyrsiau y bydd yn eu mynychu yn 2017 wedi'u clustnodi. | Kelly-Marie Brooks | 21/11/2016 |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Mrs Siân Beazer**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Nyrs Ddeintyddol/Rheolwr Nyrsio** |
| Dyddiad: | 24/01/2017 |